Sialens Fawr y Pwll

Os ydych chi'n awyddus i roi cartref i fywyd gwyllt neu amddiffyn ein bioamrywiaeth werthfawr, mae creu pwll yn un o'r pethau gorau y gallwch ei wneud. Mae pwll iach yn yr ardd yn debygol o gynnal fwy o amrywiaeth o fywyd gwyllt nag unrhyw nodwedd arall yn eich ysgol neu ardd gartref.



Yn anffodus mae pyllau wedi bod yn dirywio'n gyflym gyda bron i 70% o'r holl byllau yng nghefn gwlad yn cael eu colli dros y ganrif ddiwethaf yn y DU, gan gynnwys mewn nifer o ysgolion.

Gall pyllau fod o bob siâp a maint a gallan nhw hyd yn oed fod mor fach â bowlen ymolchi! Mae pob un yn werthfawr o ran bywyd gwyllt ac maen nhw'n gyfle gwych i ddisgyblion ddysgu.

Mae adnodd gwych sy'n gysylltiedig â chreu a chynnal a chadw pyllau yn http://wildaboutgardens.org.uk

Eich her yw creu eich pwll eich hun yn yr ysgol, os nad oes gyda chi un yn barod. Nid oes rhaid iddo fod yn enfawr, yn enwedig os nad oes gennych lawer o le ar dir eich ysgol. Treuliwch ychydig o amser yn ymchwilio i'r siâp a'r maint gorau ar gyfer bywyd gwyllt a'r mathau o blanhigion fyddai'n werth eu cynnwys. Efallai y gallech gael sawl pwll bach a chymharu'r bywyd gwyllt ym mhob un.

Efallai yr hoffech wahodd rhieni neu fusnesau lleol i helpu. Fe allech hyd yn oed ofyn i Cadwch Gymru'n Daclus am ddyfynbris os ydych chi'n edrych am rywbeth anoddach i'w adeiladu. Beth bynnag wnewch chi, byddwch yn ofalus wrth gyflwyno pysgod; dydyn nhw ddim yn mynd i helpu'r bywyd gwyllt gan y byddan nhw'n bwyta'r rhan fwyaf ohono!

Os oes gyda chi bwll yn barod, efallai y gallech ymchwilio i ba mor iach ydyw drwy gwblhau arolwg bioamrywiaeth Opal sydd ar gael yn www.opalexplorenature.org/watersurvey Mae yna hefyd rai siartiau ID defnyddiol i'w lawrlwytho am ddim a gallwch rannu eich canlyniadau ar ôl eu cwblhau am ychydig o wyddoniaeth y dinesydd.

Gweithgaredd pellach: Ydych chi'n gwybod faint o deuluoedd sydd â phwll yn eu cartrefi? Efallai y gallech chi greu arolwg i ddarganfod a cheisio annog pobl i greu pyllau mewn gerddi yn eu cartrefi. Beth am gystadleuaeth i greu'r pwll gorau wedi'i ailgylchu mewn gardd cartref neu gystadleuaeth luniau i weld gwahanol fywyd gwyllt o amgylch y pwll!

Gallech hefyd greu llyfr lloffion neu e-lyfr sy'n dangos bywyd gwyllt eich pwll bob blwyddyn; a yw'n cynyddu, yn aros yr un peth neu'n newid? A yw'r un peth â phyllau eraill yn yr ardal?

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n cymryd rhan mewn her drwy e-bostio eco-schools@keepwalestidy.cymru neu drydar @EcoSchoolsWales

Eco-Sgolion; ni yw gwreichionen yr eco-chwyldro!

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government